**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Crynodeb o Fil

# Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)

Mai 2014

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @SeneddYmchwil
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/0977
Rhif dogfen:14/021

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Crynodeb o Fil

# Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)

Mai 2014

Ben Stokes, Helen Jones, Stephen Boyce

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Gwasanaeth
Ymchwil

# Cynnwys


Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) ........ 1

1. Cyflwyniad ........ 1

2. Y Bil ........ 3

2.1. Rhan 1 Cyflwyniad ........ 3
2.2. Rhan 2 Trwyddedu ........ 3
2.3. Rhan 3 Y Prawf Preswylio ........ 8
2.4. Rhan 4 Cytundebau Carafannau Gwyliau ........ 9
2.5. Rhan 5 Amddiffyn rhag Aflonyddu ........ 10
2.6. Rhan 6 Atodol a Chyffredinol ........ 10

3. Goblygiadau ariannol y Bil ........ 12

3.1. Perchnogion safleoedd ........ 12
3.2. Awdurdodau Lleol ........ 12
3.3. Llywodraeth Cymru ........ 12

4. Ymateb i'r Bil ........ 14

# Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 17 Mawrth 2014

**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Darren Millar AC, y Ceidwadwyr Cymreig

**Pwyllgor y Cynulliad sy'n cynnal gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1 o'r Bil:** Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1:** 24 Hydref 2014

Ar 24 Ebrill 2013, enillodd Darren Millar AC, y Ceidwadwyr Cymreig, falot i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod yn ymwneud â safleoedd carafannau gwyliau. Ar 19 Mehefin 2013, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru[1] y câi Mr Millar osod Bil yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd ganddo cyn y balot. Yn dilyn dau ymgynghoriad, gyda'r cyntaf ohonynt yn ymwneud ag amcanion polisi'r Bil, rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2013[2], a'r ail yn ymwneud â'r Bil drafft, rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014[3], cyflwynodd Mr Millar y *Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)* [4] ar 17 Mawrth 2014.

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil hwn. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y Bil yn ystod Cyfnod 1 yn dechrau ar 7 Mai 2014, a dylai adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar Gyfnod 1 erbyn 24 Hydref 2014. Dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 6 Chwefror 2015, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi **galwad am dystiolaeth**, sy'n cau ar**23 Mai 2014**.

Nod y Bil yw gwahardd pobl rhag byw mewn carafannau gwyliau yn barhaol drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt brofi bod ganddynt brif breswylfa mewn man arall. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod defnyddio carafannau gwyliau yn brif

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion 19 Mehefin 2013 [fel ar 30 Ebrill 2014]
[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Ymgynghoriad ar y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)*, 29 Gorffennaf 2013 [fel ar 31 Mawrth 2014]
[3]Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)*, 12 Rhagfyr 2013 [fel ar 31 Mawrth 2014]
[4]Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)*, 17 Mawrth 2014 [fel ar 31 Mawrth 2014]

breswylfeydd, yn ogystal â bod yn groes i amodau cynllunio, amodau trwyddedau safle a chytundebau trwyddedau unigol, hefyd yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth a'r gymuned leol, a gall olygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu tanariannu, gan fod llawer o'r bobl hyn wedi'u hepgor o'r ystadegau swyddogol.

Mae'r Bil yn rhoi dyletswyddau a phwerau newydd i awdurdodau lleol ddelio â meddianwyr sy'n methu'r prawf preswylio, ac i sicrhau bod safleoedd carafannau gwyliau yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n dda yn unol ag amodau'r drwydded.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ar hyn o bryd roi trwydded safle carafannau o dan *Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960*. Mae *Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013* yn ymwneud â rheoleiddio cartrefi symudol. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn datgan:

> 19. Ni fydd Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 bellach yn gymwys yng Nghymru. Mae'r agweddau preswyl ar Ddeddf 1960 eisoes wedi'u dirymu gan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 mewn perthynas â Chymru. Felly, bydd y Bil hwn yn datgymhwyso gweddill yr agweddau hynny ar Ddeddf 1960 sy'n berthnasol i Gymru.

## 2. Y Bil

Mae'r Bil yn cynnwys 71 o Adrannau, sydd wedi'u rhannu'n chwe Rhan, ynghyd â thair Atodlen. Mae pob Rhan wedi'i chrynhoi isod.

### *2.1. Rhan 1 Cyflwyniad*

Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o'r Bil a diffiniadau o dermau allweddol, gan gynnwys ystyr y termau 'carafannau gwyliau', 'safle carafannau gwyliau', 'perchennog' a 'preswylydd'.

### *2.2. Rhan 2 Trwyddedu*

Mae Rhan 2 yn ymwneud â thrwyddedu safleoedd carafannau gwyliau. O ran **trwyddedau safle** mae'n:

- gwahardd defnyddio tir fel safle carafannau gwyliau heb drwydded safle, yn nodi'r gofynion ar gyfer ceisiadau i awdurdodau lleol am drwyddedau safle ac yn caniatáu i awdurdodau lleol godi ffi am drwydded safle;
- ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw gais sy'n cael ei gyflwyno yn cynnwys datganiad bod pwy bynnag sy'n rheoli'r safle yn berson 'addas a phriodol' i wneud hynny;
- darparu bod trwyddedau a roddwyd o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (Deddf 1960) yn parhau i fod yn ddilys at ddibenion y Bil hwn, ond na fyddant yn parhau i fod yn ddilys oni fydd yr awdurdod lleol yn fodlon bod y rheolwr yn berson addas a phriodol. Hefyd, rhaid i awdurdodau lleol addasu trwyddedau a ddyroddwyd o dan Ddeddf 1960 fel bod y trwyddedau'n bodloni gofynion y Bil hwn. O'r dyddiad y daw'r adran berthnasol i rym, mae gan awdurdodau lleol 12 mis i addasu trwyddedau presennol ac asesu'r rheolwr;
- amlinellu'r amserlen ar gyfer rhoi trwyddedau safle ac yn gwahardd awdurdod lleol rhag cyflwyno trwydded i berson y mae ei drwydded safle wedi cael ei dirymu yn ystod y tair blynedd diwethaf; ac yn
- darparu y bydd trwyddedau safle yn parhau am gyfnod amhenodol oni chânt eu terfynu.

O ran **amodau trwyddedau safle,** mae'n:

- caniatáu i awdurdod lleol bennu amodau pan fo'n dyroddi trwydded safle, gan gynnwys y gofyniad i wneud unrhyw waith ar safle carafannau fel y nodir gan yr awdurdod lleol;
- ei gwneud yn ofynnol bod copïau o'r drwydded safle a'r dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael eu harddangos ar y safle;
- caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau enghreifftiol mewn perthynas ag agweddau penodol ar safleoedd carafannau gwyliau. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r safonau enghreifftiol hyn wrth ystyried gosod amodau ar drwydded safle;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth ystyried amodau i'w hatodi at drwydded safle, ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub a'r awdurdod cyhoeddus perthnasol sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd;
- cyflwyno gofyniad newydd fod awdurdodau lleol yn archwilio safleoedd carafannau gwyliau o leiaf unwaith bob tair blynedd i fonitro a ydynt yn cydymffurfio ag amodau trwydded safle ai peidio. Bydd dyddiad cychwyn y ddyletswydd hon yn cael ei phennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau, yn dilyn ymgynghori priodol;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu amodau trwydded safle ar gyfnodau o ddim mwy na phum mlynedd;
- caniatáu i awdurdodau lleol amrywio amodau trwydded safle os bydd deiliad trwydded safle yn gwneud cais i wneud hynny neu os yw'r awdurdod lleol yn darganfod gwybodaeth newydd neu yn ystyried bod newid yn yr amgylchiadau; ac yn
- amlinellu hawl ceisydd i apelio i lys ynadon yn erbyn unrhyw amod a osodir ar drwydded safle neu unrhyw gamau i amrywio amodau ar drwydded.

O ran **torri amodau**, mae'n:

- caniatáu i awdurdodau lleol roi hysbysiad cosb benodedig, neu hysbysiad cydymffurfio, i berchennog safle carafannau gwyliau os ydynt yn methu neu wedi methu â chydymffurfio ag amod trwydded y safle. Os bydd hysbysiad cosb benodedig wedi ei roi, ond heb ei dalu, caiff awdurdod lleol dynnu'r hysbysiad cosb benodedig yn ôl a dyroddi hysbysiad cydymffurfio yn ei le. Ni chaiff y swm a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol ar gyfer troseddau diannod (£500 ar hyn o bryd). Bydd hysbysiadau cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog y safle weithredu i sicrhau y cydymffurfir ag amodau'r drwydded. Bydd methu â gwneud hynny yn dramgwydd a fydd yn agored i ddirwy anghyfyngedig;
- caniatáu i Weinidogion Cymru roi canllawiau cyffredinol i awdurdodau lleol ynghylch y materion y dylent eu hystyried wrth benderfynu pa fath o hysbysiad i'w roi. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath a gyhoeddir;
- darparu, pan fo gan berchennog safle ddwy gollfarn neu ragor am fethu â chydymffurfio â hysbysiadau cydymffurfio, y caiff yr awdurdod lleol wneud cais i'r llys i ddirymu trwydded perchennog y safle;
- caniatáu i awdurdod lleol godi tâl ar berchennog safle carafannau gwyliau er mwyn adennill treuliau mewn cysylltiad â pharatoi a gwasanaethu'r hysbysiad cydymffurfio. Os na chydymffurfir â'r hysbysiad, ac y mae perchennog y safle yn cael ei gollfarnu, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol i'r perchennog, caiff yr awdurdod lleol gymryd camau i sicrhau y bodlonir amodau'r drwydded. Hefyd, caiff awdurdodau lleol gymryd camau brys, eto ar ôl rhoi rhybudd rhesymol i'r perchennog, os na chydymffurfiwyd ag amod mewn trwydded safle ac os oes risg uniongyrchol o niwed difrifol i iechyd a diogelwch unrhyw berson a all fod ar y tir hwnnw. Mae'r Bil yn darparu y gall awdurdodau lleol yn y ddau achos hyn godi tâl ar berchennog y tir fel modd i adennill treuliau; ac yn

- amlinellu'r broses apelio mewn perthynas â gwneud hysbysiad cydymffurfio, pwerau'r awdurdodau lleol i gymryd camau brys a'r pŵer i fynnu treuliau.

O ran **trosglwyddo trwyddedau safle** mae'n:

- darparu ar gyfer trosglwyddo trwyddedau safle, yn amodol ar gydsyniad yr awdurdod lleol, yn dilyn newid perchnogaeth y tir; ac yn
- amlinellu dyletswydd deiliad trwydded i ganiatáu i drwydded safle gael ei newid.

O ran y **prawf person addas a phriodol**, mae'n:

- cyflwyno gofyniad newydd i reolwr safle carafannau fod yn 'berson addas a phriodol';
- nodi na chaiff perchennog tir ganiatáu i unrhyw ran o'r tir gael ei ddefnyddio fel safle carafannau gwyliau oni fodlonir yr awdurdod lleol fod y perchennog (neu berson a benodir gan y perchennog i reoli'r safle) yn berson addas a phriodol i reoli'r safle. Mae mynd yn groes i'r gofyniad hwn yn dramgwydd, sydd, o'i gollfarnu'n ddiannod, yn agored i ddirwy;
- darparu y bydd y diffiniad o reolwr yn cynnwys y person sydd â'r rôl uchaf sy'n gyfrifol am reoli'r safle, ac unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb am reoli'r safle o ddydd i ddydd. Hefyd, mae 'rheoli' yn cynnwys rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli'r safle;
- darparu, os na fydd person addas a phriodol yn rheoli'r safle, y caiff yr awdurdod lleol wneud cais i lys ynadon am orchymyn yn dirymu trwydded y safle;
- darparu, wrth ystyried a yw'r amodau prawf person addas a phriodol wedi'u bodloni, fod yn rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i bob mater y mae'n ystyried yn briodol ac ystyried a oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y person wedi:
    - cyflawni troseddau sy'n ymwneud â thwyll, anonestrwydd, trais, arfau tanio, cyffuriau neu droseddau rhywiol;
    - wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon wrth gynnal ei fusnes;

  - wedi torri unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy'n ymwneud â thai (gan gynnwys carafannau) neu'n ymwneud â landlord a thenant; neu
  - wedi mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy'n ymwneud â safonau masnach.
- caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i amrywio'r dystiolaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddi wrth wneud penderfyniad o dan yr adran hon; ac yn
- gofyn bod yn rhaid i awdurdod lleol, os yw'n penderfynu nad yw rhywun yn berson addas a phriodol, roi gwybod i'r person am y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw ac am hawl y person i apelio i lys ynadon o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad.

Mae gweddill Rhan 2:

- yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol benodi rheolwr dros dro dros safle carafannau gwyliau mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys sefyllfaoedd lle nad yw amodau'r drwydded yn cael eu bodloni ac nid oes person addas a phriodol yn rheoli'r safle;
- yn rhoi'r pŵer i swyddogion awdurdod lleol i gael mynediad i safle carafannau gwyliau, yn ddarostyngedig i amodau penodol.
- yn caniatáu i feddiannydd carafan gwyliau wneud cais i lys ynadon am orchymyn ad-dalu i adennill taliadau penodol a wneir i berchennog safle carafannau gwyliau os bydd perchennog y safle wedi cael ei gollfarnu o weithredu safle heb drwydded;
- yn caniatáu i awdurdodau lleol godi tâl blynyddol ar berchnogion safle am eu trwydded safle. Cyn codi ffi, rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chyhoeddi polisi ynghylch ffioedd. Wrth bennu ffioedd, ni chaiff awdurdod lleol ystyried unrhyw gostau a gododd wrth arfer unrhyw bwerau gorfodi o dan adrannau 20 i 30. Gall y costau gorfodi hynny gael eu hadennill ar wahân ac yn uniongyrchol gan berchennog y safle perthnasol;
- yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol yn cadw cofrestr o drwyddedau safle sydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd; ac

- yn darparu nad yw Rhan 2 o’r Ddeddf yn gymwys i dir y Goron.

## *2.3. Rhan 3 Y Prawf Preswylio*

Mae Rhan 3 yn cyflwyno prawf preswylio a fydd yn sicrhau na fydd unrhyw berson yn byw mewn carafán wyliau fel ei gartref parhaol neu ei brif gartref. Wrth wneud hynny, mae’n:

- eithrio perchennog y safle, personau a gyflogir ar y safle y mae angen iddynt fyw yno oherwydd eu gwaith a rheolwr safle o’r cyfyngiad hwn;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys amod trwydded safle sy’n ei gwneud yn ofynnol i berchennog y safle gynnal profion preswyl i weld a yw deiliaid yn defnyddio carafannau gwyliau fel eu hunig neu brif breswylfa. Yn y Bil hwn, mae **‘meddiannydd’** yn cynnwys perchnogion carafannau gwyliau sy’n gwneud cytundeb carafán wyliau gyda pherchennog y safle am fwy na chwe wythnos olynol, a phobl sydd â hawl i feddiannu carafán wyliau am fwy na chwe wythnos olynol;
- ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid gydymffurfio â phrawf preswylio a darparu o leiaf dwy o’r dogfennau canlynol fel tystiolaeth er mwyn pasio’r prawf: eu hunig neu brif breswylfa at ddibenion y dreth gyngor; cyfeiriad ysgol a fynychir gan blant y deiliad sy’n byw gyda nhw; cofnod y preswylwyr ar rôl etholiadol; manylion cofrestru gyda meddyg teulu; eu cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth gyda sefydliad ariannol, darparwr gwasanaethau neu Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
- ei gwneud yn ofynnol i berchnogion safleoedd hysbysu’r awdurdod lleol am unrhyw fethiant prawf preswylio cyn gynted ag y bo modd ac i gadw’r dystiolaeth a ddarparwyd mewn perthynas â’r prawf ac i sicrhau ei bod ar gael i’r awdurdod lleol ar bob adeg resymol;
- ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdod lleol archwilio’r dystiolaeth honno o leiaf unwaith y flwyddyn;
- darparu ar gyfer amseriad y prawf preswylio cyntaf a phrofion dilynol;
- ei gwneud yn ofynnol, os yw awdurdod lleol yn credu bod meddiannydd wedi methu’r prawf preswylio, fod yn **rhaid** iddo roi hysbysiad i’r meddiannydd

sy'n nodi'r rhesymau am y methiant, y gofyniad i roi'r gorau i feddiannu'r garafán fel unig neu brif breswylfa, a'r hawl i apelio. Hefyd, **caiff** yr awdurdod lleol roi hysbysiad cosb benodedig i'r meddiannydd (hyd at £500);

- amlinellu y gall methu â chydymffurfio â hysbysiad prawf preswylio fod yn drosedd sydd, o'i gollfarnu'n ddiannod, yn agored i ddirwy anghyfyngedig; ac yn
- ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i berchnogion safleoedd am hysbysiad methiant prawf preswylio ac yn caniatáu i awdurdodau lleol roi cyfarwyddiadau i berchnogion safle ynghylch gweithredu mewn perthynas â meddiannydd sydd wedi methu'r prawf preswylio. Mae'n amod ymhlyg mewn trwydded safle fod y perchennog yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn.

## *2.4. Rhan 4 Cytundebau Carafannau Gwyliau*

Bwriad Rhan 4 yw rhoi amddiffyniad ychwanegol i feddianwyr a pherchnogion carafannau gwyliau a pherchnogion safleoedd drwy bennu manylion cytundebau a'r telerau ymhlyg ynddynt. Wrth wneud hynny, mae'n:

- ei gwneud yn ofynnol i berchennog safle carafannau gwyliau roi datganiad ysgrifenedig i feddiannydd arfaethedig;
- ei gwneud yn ofynnol bod perchennog safle, cyn gwneud cytundeb carafán wyliau, yn rhoi datganiad ysgrifenedig i'r meddiannydd arfaethedig sy'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol am y cytundeb arfaethedig. Bydd yr wybodaeth honno'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, ddyddiad dechrau a diwedd y cytundeb, dros ba gyfnodau y caniateir defnyddio'r garafán, a manylion unrhyw drefniadau comisiwn a all olygu bod angen gwneud taliad i berchennog y safle os caiff y garafán ei gwerthu;
- nodi ystod o delerau ymhlyg o ran cytundebau carafannau gwyliau a fydd yn berthnasol i bob cytundeb er gwaethaf unrhyw delerau penodol. Mae'r telerau ymhlyg yn cynnwys amod y cydymffurfir â phob gofyniad mewn perthynas â'r prawf preswylio; a

- dim ond i gytundebau sy'n caniatáu i garafán wyliau gael ei gosod ar safle am fwy na chwe wythnos olynol y bydd y darpariaethau hyn yn berthnasol, neu pan fydd gan feddiannydd hawl i ddefnyddio carafán wyliau **sy'n eiddo i berchennog y safle** am gyfnod o fwy na chwe wythnos olynol.

## *2.5. Rhan 5 Amddiffyn rhag Aflonyddu*

Mae Rhan 5 (Amddiffyn rhag Aflonyddu) yn gymwys i bob meddiannydd, ni waeth am ba hyd y mae'n gosod neu'n meddiannu carafán wyliau ar safle, ac mae'r adran hon:

- yn darparu ei bod yn drosedd aflonyddu ar feddianwyr carafannau gwyliau. Mae aflonyddu yn cynnwys amddifadu meddianwyr o'u defnydd o garafán wyliau, ymyrryd â llonyddwch neu gysur meddianwyr gyda'r bwriad o'u hannog i roi'r gorau i feddiannu'r garafán wyliau (neu ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol gyda'r un bwriad);
- yn datgan nad yw Deddf Amddiffyn rhag Troi Allan 1977 yn gymwys i unrhyw fangre sy'n garafán wyliau a osodwyd ar safle carafannau gwyliau; ac
- yn darparu bod unrhyw berson a geir yn euog o aflonyddu o dan yr adran hon yn agored i ddirwy a/neu garchar.

## *2.6. Rhan 6 Atodol a Chyffredinol*

Mae Rhan 6 o'r Bil yn amlinellu nifer o ddarpariaethau atodol a chyffredinol, gan gynnwys:

- ei bod yn drosedd gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol a darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol. Mae hefyd yn drosedd i fethu â darparu unrhyw wybodaeth neu hysbysiadau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf;
- gall Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol i'w harwain o ran cyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf, a rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn; a

- gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer gorchmynion a rheoliadau o dan y Ddeddf hon. Yn benodol, mae’n darparu y dylid gwneud unrhyw bŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion a rheoliadau drwy offeryn statudol, ac eithrio pan nodir yn wahanol.

## 3. Goblygiadau ariannol y Bil

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd yr opsiwn a ffefrir yn y Bil yn arwain at gostau o £1,266,000 yn y flwyddyn gyntaf, a chostau blynyddol o £277,000 yn y pedair blynedd ddilynol. Amcangyfrifir y bydd y Bil yn costio isafswm o tua £2,374,000 dros y pum mlynedd gyntaf.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai perchnogion safleoedd, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru a fyddai'n ysgwyddo'r costau newydd hyn.

### *3.1. Perchnogion safleoedd*

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd yn rhaid i berchnogion safleoedd ysgwyddo'r costau canlynol: y ffi am drwydded i'r safle, y prawf person addas a phriodol a chostau gweinyddol yn sgîl y cais am drwydded a diweddaru'r prawf preswylio, yn ogystal â chostau apeliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu mai perchnogion safleoedd a fydd yn ysgwyddo'r costau mwyaf o ran ffioedd trwyddedau safle, a delir i awdurdodau lleol, sef £760,000 yn y flwyddyn gyntaf a £110,000 y flwyddyn ym mhob un o'r blynyddoedd dilynol. Amcangyfrifir y bydd costau trosiannol o £1.1 miliwn yn y flwyddyn gyntaf, a chyfanswm costau o bron £2.1 miliwn i berchnogion safleoedd dros bum mlynedd gyntaf y Bil.

### *3.2. Awdurdodau Lleol*

Mae'r gost i awdurdodau lleol yn cynnwys costau trwyddedu a monitro safleoedd, costau llys a chostau hyfforddiant a chyhoeddusrwydd. Cânt eu gwrthbwyso i ryw raddau gan yr incwm o'r ffi trwydded safle. Amcangyfrifir y bydd costau trosiannol o £157,000 yn y flwyddyn gyntaf, a chyfanswm costau o bron £250,000 dros bum mlynedd gyntaf y Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r gobaith yw y bydd modd adennill rhai o'r costau llys (£165,000) dros y cyfnod o bum mlynedd.

### *3.3. Llywodraeth Cymru*

Bydd costau trosiannol i Lywodraeth Cymru am baratoi wyth o orchmynion a rheoliadau, dwy set o ganllawiau a hyfforddiant ymgyfarwyddo ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £29,000. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y costau hyn yn seiliedig ar y rhan o

Femorandwm Esboniadol y Bil Safonau Ysgolion drafft sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion, ac mae'n disgwyl y bydd amcangyfrifon mwy manwl ar gael pan fo'r rheoliadau wedi'u drafftio a bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal arnynt.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'n anodd rhoi gwerth ariannol ar fanteision y Bil.[5] Mae'r manteision a nodir yn y Bil yn cynnwys y rhai sy'n deillio o'r newidiadau i'r system gyfreithiol gymhleth bresennol gan ei gwneud yn fwy costeffeithiol i awdurdodau lleol fonitro a gorfodi safleoedd yn effeithiol a disgwylir i hynny wella safonau ar safleoedd yn ei dro. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y bydd llai o bobl nad ydynt yn talu'r dreth gyngor yn defnyddio gwasanaethau'r awdurdod lleol a meddygon teulu. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y bydd mwy o reoleiddio yn arwain at lai o droseddau ar safleoedd carafannau gwyliau, ond ni wnaed unrhyw ymgais i fesur hynny. Yn olaf, dywed y Memorandwm Esboniadol y bydd y diwydiant carafannau gwyliau yn elwa o enw da safleoedd yng Nghymru nad ydynt yn cael eu heffeithio gan safonau sy'n gwaethygu.

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Memorandwm Esboniadol – y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)*, *paragraff 228*, 17 Mawrth 2014 [fel ar 31 Mawrth 2014]

## 4. Ymateb i'r Bil

Mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mawrth 2014 [6] amlinellodd Darren Millar AC, y Ceidwadwyr Cymreig, ddiben y Bil a dywedodd ei fod wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â Chymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain a'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol sydd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli'r rhan fwyaf o berchnogion safleoedd yng Nghymru. Bu Cymdeithas Genedlaethol y Perchnogion Carafannau yn helpu i hwyluso ymgysylltiad gan berchnogion safleoedd yn natblygiad y Bil hwn. Hefyd, cynhaliwyd dau ymgynghoriad cyhoeddus yn y broses o ddatblygu'r Bil – yn gyntaf ar yr egwyddorion a pholisïau y byddai'r Bil yn eu trafod[7] ac yn ail ar Fil drafft[8].

Dadleuodd Darren Millar AC fod camddefnyddio carafannau gwyliau yn brif gartrefi, a'r diffyg camau gorfodi i atal hynny, yn bygwth y diwydiant carafannau gwyliau, a bod angen deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Gofynnodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio, a oedd y defnydd o garafannau gwyliau at ddibenion preswyl ar raddfa ddigonol i gyfiawnhau'r hyn a ddisgrifiodd yn "ddeddfwriaeth ymddangosiadol lawdrom". Roedd yn credu y gallai cost posibl y ddeddfwriaeth, a fydd yn cael ei hysgwyddo gan berchnogion safleoedd, gynyddu costau gwyliau carafán yng Nghymru, gan wneud y diwydiant yn llai cystadleuol. Dywedodd y Gweinidog fod angen astudio effaith economaidd lawn y cynigion a'r dystiolaeth o'r angen am Fil yn ystod y broses graffu.

Nododd Darren Millar AC ystod o ystadegau i ddangos maint y broblem, ond roedd yn cydnabod bod angen mwy o dystiolaeth a dywedodd y byddai gwaith craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1 yn gyfle i gasglu'r dystiolaeth hon. Dywedodd mai costau gweithredu'r ddeddfwriaeth fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol fyddai tua £3.43 y flwyddyn fesul carafán.

---

[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cofnod y Trafodion 19 Mehefin 2013 [fel ar 29 Ebrill 2014]

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Ymgynghoriad ar y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)*, 29 Gorffennaf 2013 [fel ar 31 Mawrth 2014]

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)*, 12 Rhagfyr 2013 [fel ar 31 Mawrth 2014]

Awgrymodd Jocelyn Davies AC, o Blaid Cymru, y dylai'r ddeddfwriaeth gyfredol fod yn gallu mynd i'r afael â'r broblem pe bai'n cael ei gorfodi'n gywir, a gofynnodd a ddylai perchnogion safleoedd carafannau orfod cyflawni dyletswyddau sydd, yn eu hanfod, yn ddyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Hefyd, gofynnodd sut y byddai trigolion y tu allan i'r DU yn cael mynediad at ddogfennau i brofi eu bod yn preswylio'n barhaol yn rhywle arall.

Amlygodd Darren Millar AC wendidau'r ddeddfwriaeth bresennol, yn ei farn ef, sy'n dyddio o 1960, sef nad yw'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio safleoedd carafannau, nac i orfodi rheoliadau, ac nad yw'n darparu adnoddau ychwanegol i alluogi hyn i ddigwydd. Yn ogystal, roedd yn credu bod y cosbau ariannol ar gyfer caniatáu defnydd preswyl ar safleoedd gwyliau yn rhy isel i ddarparu rhwystr effeithiol. Dywedodd bod yna amrywiaeth o wybodaeth a allai brofi preswylfa barhaol a fyddai'n caniatáu i bobl sy'n byw dramor i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

Awgrymodd Peter Black AC, o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, a gyflwynodd y Bil a ddaeth yn *Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013*, o ystyried nifer y bobl yr hawlir eu bod yn byw yn barhaol mewn carafannau, efallai y bydd gan y Bil oblygiadau ar dai fforddiadwy a gwasanaethau atal digartrefedd. Gofynnodd pa gosbau a fyddai'n berthnasol i berchnogion carafannau a pherchnogion safleoedd lle mae meddiannaeth breswyl yn digwydd, ac am gamau i amddiffyn hawliau deiliaid tymor hir lle mae newidiadau yn cael eu gwneud i safleoedd.

Dywedodd Darren Millar fod ymchwil yn awgrymu bod y bobl hynny sy'n camddefnyddio carafannau gwyliau fel eu prif breswylfa yn tueddu i fod yn "bobl o fodd" a fyddai'n annhebygol o fod angen tai fforddiadwy, ac y dylai'r eglurhad a ddarperir gan y Bil am ddefnydd preswyl helpu i atal digartrefedd yn y dyfodol. Dywedodd mai'r gosb uchaf a gyflwynwyd gan y Bil am fethu â chydymffurfio â thrwydded safle fyddai £500 ac y byddai'r Bil yn creu gofyniad newydd ar berchnogion safleoedd i ymgynghori â pherchnogion carafannau am newidiadau gweithredol sylweddol i safleoedd.

Awgrymodd Mark Isherwood AC, y Ceidwadwyr Cymreig, fod preswylio'n barhaol mewn cartref gwyliau, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, yn torri amodau caniatâd cynllunio neu drwydded safle, gyda chanlyniadau cyfreithiol difrifol. Mynegodd Ann Jones AC, Llafur Cymru, bryder bod dyblygu'r ddeddfwriaeth bresennol o bosibl yn creu bylchau i berchnogion safleoedd diegwyddor fanteisio arnynt.

Cafwyd sicrwydd gan Darren Millar AC y byddai'r Bil yn cyflwyno proses drwyddedu newydd fodern ar gyfer parciau carafannau gwyliau ac na fyddai'n dyblygu'r ddeddfwriaeth bresennol.

Mynegodd Rhun ap Iorwerth AC, Plaid Cymru, bryder am yr effaith bosibl ar safleoedd sy'n dymuno darparu ar gyfer carafannau teithiol ac am ymarferoldeb gallu awdurdodau lleol i arfer pwerau mynediad o fewn 24 awr o rybudd lle mae perchnogion safleoedd yn absennol pan fo safleoedd ar gau yn ystod y gaeaf.

Cadarnhaodd Darren Millar AC fod y Bil yn berthnasol i garafanau teithiol hefyd, ond dywedodd mai dim ond pan fo pobl yn aros ar safle am fwy na chwe wythnos y byddai'r prawf preswyl yn cael ei ddefnyddio. Mae'r pwerau mynediad eisoes ar gael o dan *Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960* ac ni wneir unrhyw newid iddynt gan y Bil hwn.

Nododd Rebecca Evans AC, Llafur Cymru, *Ddeddf Carafannau (Gogledd Iwerddon) 2011*, sy'n gwneud darpariaethau tebyg, ac awgrymodd y gallai profiadau yno helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth yng Nghymru.